

10 Digwyddiad 'Arbennig'

Rhannu Iesu trwy Gyfeillgarwch

1. Rysáit Arbennig
2. Dilledyn Arbennig
3. Lle Arbennig
4. Person Arbennig
5. Digwyddiad Arbennig
6. Cân Arbennig
7. Llyfr Arbennig
8. Llun Arbennig - Nadolig
9. Gwrthrych Arbennig
10. Blodyn/Planhigyn Arbennig

Atodiad

10 Digwyddiad 'Arbennig'

Rhannu Iesu trwy Gyfeillgarwch

Oes gennych chi ffrindiau sydd ddim yn mynd i'r eglwys? Neu ffrindiau a arferai fynd i'r eglwys, ond sydd wedi rhoi'r gorau iddi am wahanol resymau?

Gall fod yn anodd mynd ati i wahodd ein ffrindiau i'r eglwys.

Efallai ein bod ni'n poeni na fyddant yn ffitio i mewn neu y byddant yn teimlo'n chwithig gan nad ydynt yn adnabod unrhyw un yno.

Efallai ein bod yn teimlo y byddai Gwasanaeth Sul yn rhy hir neu'n rhy anodd iddynt ei ddilyn - neu na fyddai'n apelio atynt o gwbl!

Pwrpas y syniadau yn y llyfr hwn yw cau'r bwlch rhwng ein ffrindiau a'n heglwys.

Does dim rhaid cynnal y digwyddiadau mewn adeilad eglwysig, gellid cynnal y rhan fwyaf ohonynt yng nghartref rhywun.

Y prif nod yw creu sefyllfaoedd ble mae modd i'ch ffrindiau gyfarfod pobl o'r eglwys a hynny mewn awyrgylch ymlacedig a chyfeillgar.

Mae pob sesiwn yn cynnwys syniad syml ar gyfer cyflwyno gwirionedd o'r Beibl - ac fe ellid, ac fe ddylid ei addasu er mwyn ateb gofynion eich grŵp.

Gobeithio y bydd eich ffrindiau yn dod i adnabod pobl o'ch eglwys ac yn dod yn fwy agored i wrando ar yr efengyl, ac o bosib yn derbyn gwahoddiad i wasanaeth neu gyfarfod.

Mae dod i adnabod yr Iesu yn aml yn daith sydd yn cynnwys sawl cam - ein gweddi ni yw y bydd y 'digwyddiadau' hyn yn fan cychwyn neu'n gam ar siwrne rhywun i ffydd achubol ynddo ef.

Cynnal 'Digwyddiad'

Meddyliwch lle y byddwch yn cynnal eich 'Digwyddiad'.

Gallwch ddefnyddio eich eglwys, y festri, neuadd neu ystafell gymuned, neu gartref rhywun. Ble bynnag y byddwch yn penderfynu cyfarfod, gwnewch yn siwr fod y lle yn gynnes ac yn groesawgar, yn hygyrch ac yn meddu ar adnoddau gwneud te a choffi a thoiledau. Mae argraffiadau cyntaf yn bwysig IAWN, felly dychmygwch eich bod yn ymwelydd am y tro cyntaf - beth fyddech chi yn ei feddwl o'r adeilad a'r croeso?

Pwy sydd am helpu i drefnu'r 'Cyfarfod'?

Gwahoddwch grŵp o bobl ewyllysgar a brwdfrydig ynghyd i drafod y trefniadau, dros baned efallai.

Meddyliwch ynghylch:

Pwy fyddwch chi yn eu gwahodd? Fyddwch chi yn paratoi gwahoddiadau? Pwy fydd yn gyfrifol am y lluniaeth? Sut allwch chi wneud yr ystafell yn groesawgar? Pwy fydd yn croesawu pobl wrth iddynt gyrraedd? Pwy fydd yn cyflwyno'r sesiwn? Fyddwch chi'n gofyn i bawb ddod â rhywbeth sy'n perthyn i'r thema gyda hwy? Fyddwch chi'n gwahodd rhywun i gyflwyno'r sgwrs ynteu un o'r grŵp fydd yn gyfrifol am y cyflwyniad? Fydd yna 'Ddigwyddiad' arall fel bo modd ichi wahodd pobl i hwnnw hefyd, neu a fyddwch chi'n trefnu cyfres o 'Ddigwyddiadau' a chynhyrchu rhaglen?

Sut fyddwch chi'n croesawu'r gwesteion?

Mae'n bwysig trefnu hyn yn iawn. Trafodwch sut y gall eich gwesteion dderbyn croeso cynnes - sydd ddim yn ormodol! Efallai y gallwch chi osod rhai llyfrau neu daflenni Cristnogol ar fyrddau bychain er mwyn i bobl edrych arnynt os oes ganddynt funud neu ddau iddynt eu hunain. Gallai fod yn syniad da i arddangos lluniau o weithgareddau diweddar yr Eglwys hefyd. Gofalwch fod rhywun yn croesawu pobl wrth y drws ac yn dangos ble y gellir cadw cotiau, ble mae'r toiledau ac esbonio'n gryno beth fydd yn digwydd.

Sut fyddwch chi yn gorffen eich 'Digwyddiad'?

Fyddwch chi'n gwahodd pobl i 'Ddigwyddiad' arall neu i wasanaeth? Fyddwch chi'n gofyn i rywun weddio? Gymrwch chi baned arall? Ceisiwch orffen ar nodyn ysgafn heb roi pwysau ar neb. Rydych yn dymuno i'ch gwesteion ymadael ar ôl mwynhau amser dymunol a difygythiad, ac wedi siarad â nifer o bobl.

GWEDDÏWCH, GWEDDÏWCH, GWEDDÏWCH

Ceisiwch gael pob un rydych yn ei adnabod i weddio am bob agwedd ar y 'Digwyddiad' – cynt ac wedyn.

10 Digwyddiad 'Arbennig':

1. Rysáit Arbennig

- **Gweithgaredd:** *Merched i ddod â theisennau/ryseitiau i'w rhannu. Arddangosiad coginio o bosib.*
- **Cyflwyniad:** *Rydym yn rhannu teisen a the wrth gymdeithasu. Roedd yr Iesu yn cyfarfod pobl i siarad a gwrando a'u helpu - yn aml dros fwyd!*
- **Beibl:** *Luc 17:11-19: Iesu'n cyfarfod y gwahangleifion. Ei agwedd tuag at bobl o bob math oedd cariad a gofal.*
- **Rhoi hyn ar waith:** *Mae'n rhaid blasu'r deisen er mwyn gweld cystal yw hi – meddylwch am ddod i wybod beth sydd gan yr Iesu i'w gynnig i ni.*

2. Dilledyn Arbennig

- **Gweithgaredd:** *Sioe Ffasiwn / Cwis dillad.*
- **Cyflwyniad:** *Gwisgo dillad / Dangos dillad / Cynnal cwis ffasiwn.*
- **Beibl:** *Genesis 3:6-13: Adda ac Efa'n gwneud dillad i guddio rhag Duw.*
- **Rhoi hyn ar waith:** *Pechod dyn, Sancteiddrwydd Duw, Trugaredd Duw – trwy aberth.*

3. Lle Arbennig

- **Gweithgaredd:** *Ffotograffau / lluniau / cardiau post o lefydd – cwis.*
- **Cyflwyniad:** *Edrych ar y lluniau neu wneud cwis.*
- **Beibl:** *Ioan 14:1-6: Tŷ fy Nhad. Mae Iesu'n paratoi lle yn y nefoedd i bawb sydd yn ei adnabod ef.*
- **Rhoi hyn ar waith:** *Wrth fynd ar daith, rydym angen cyfarwyddiadau - Iesu yw'r ffordd i'r nefoedd.*

4. Person Arbennig

- **Gweithgaredd:** *Rhannu straeon am bobl arbennig.*
- **Cyflwyniad:** *Cwis ar bobl enwog.*
- **Beibl:** *Mathew 26:2: Mair yn eneinio Iesu – ymateb o gariad a defosiwn.*
- **Rhoi hyn ar waith:** *Ymateb i gariad a gofal Iesu.*

5. Digwyddiad Arbennig

- **Gweithgaredd:** *Cwis, sgwrs, memorabilia o Ddigwyddiad.*
- **Cyflwyniad:** *Atgofion am ddiwrnod priodas / stori.*
- **Beibl:** *Ioan 2:1-11*
- **Rhoi hyn ar waith:** *Mae'r gwyर्थiau yn dangos mai Mab Duw yw Iesu.*

6. Cân Arbennig

- **Gweithgaredd:** *Gwrando ar ganeuon, canu caneuon, siarad am hoff ganeuon, cynnal perfformiad.*
- **Cyflwyniad:** *Stori bersonol, cyflwyno Dafydd.*
- **Beibl:** *Salm 23.*
- **Rhoi hyn ar waith:** *Sut mae Duw yn gofalu am ei bobl fel eu bugail.*

7. Llyfr Arbennig

- **Gweithgaredd:** *Arddangos hoff lyfrau, cyflwyniad Cymdeithas y Beibl, arddangos Beiblau.*
- **Beibl:** *Mae Gair Duw yn llusern, yn hedyn, yn gleddyf.*
- **Rhoi hyn ar waith:** *Mae Cristnogion yn trysori'r Beibl gan mai dyma neges Duw i'r byd.*

8. Llun Arbennig

- **Gweithgaredd:** *Gwneud cardiau.*
- **Beibl:** *Un o sefyllfaoedd y Nadolig.*
- **Rhoi hyn ar waith:** *Gwir ystyr y Nadolig.*

9. Gwrthrych Arbennig

- **Gweithgaredd:** *Rhannu gwrthrychau arbennig / Siarad am wrthrychau arbennig.*
- **Cyflwyniad:** *Gwrthrychau arbennig mewn eglwys/capel – y bara a'r gwin.*
- **Beibl:** *1 Corinthiaid 11:23-26: sefydlu Swper yr Arglwydd.*
- **Rhoi hyn ar waith:** *Bod y bara a'r gwin – dau wrthrych cyffredin – yn atgoffa Cristnogion am farwolaeth anghyffredin Iesu.*

10. Blodyn/Planhigyn Arbennig

- **Gweithgaredd:** *Arddangosfa dangos blodau / Arddangos a siarad am hoff flodau / Cyfle i holi garddwyr.*
- **Cyflwyniad:** *Siarad am y lili.*
- **Beibl:** *Darllen Mathew 6:25-33.*
- **Rhoi hyn ar waith:** *Y peth pwysicaf mewn bywyd yw ceisio adnabod Duw fel Brenin.*

1. Rysait Arbennig

Gwirionedd allweddol i'w rannu yn y sesiwn hon:

Pa fath bynnag o berson ydym ni a beth bynnag yw'n hanghenion ni, mae Iesu yn ein hadnabod ac yn ein caru.

Ymlaen llaw:

Ystyriwch yn ofalus sut i gyflwyno'r sesiwn hon! Ydach chi am i bawb ddod â'u hoff rysait hefo nhw? Ydach chi am i bobl ddod â sampl o'r rysait hefo nhw? A fyddai rhywun yn gallu dangos sut i wneud rysait arbennig fel rhan o'r digwyddiad?

Dewisodd un grŵp ddod â samplau o'u teisennau 'dim coginio' hefo nhw, gyda'r ryseitiau wedi eu hysgrifennu ac yn barod i'w rhannu. Roedd y teisennau wedi eu gosod allan a phawb yn cael helpu eu hunain. Yna, rhannodd un aelod o'r grŵp, aelod profiadol o'r WI, ei syniadau o ran llenwi crempogau - gyda'r digwyddiad ei hun ar ddiwedd mis Ionawr!

Trefn awgrymedig:

- Cyrraedd a sgwrsio anffurfiol wrth i bobl arddangos eu teisennau a'u ryseitiau – 10 munud
- Te/Coffi a blasu – 20 munud
- Arddangosiad – 15 munud
- Darn o'r Beibl neu Dystiolaeth – 10 munud
- Mwy o De/Coffi a blasu – 25 munud

Gallwch hepgor yr arddangosiad a chaniatáu mwy o amser ar gyfer y te a blasu cychwynnol. Neu fe allwch hepgor y te a'r blasu terfynol. Byddai hyn yn sicrhau mai tuag awr fyddai hyd y digwyddiad.

Darn o'r Beibl

Rydym oll wrth ein bodd hefo paned a theisen neu fisged wrth inni sgwrsio a chlywed newyddion pobl. Mae'n llesol iawn siarad hefo ffrindiau. Sut mae modd dod i adnabod rhywun os nad ydym yn treulio amser hefo nhw yn siarad ac yn gwranddo?

Treuliodd yr Iesu lawer o amser yn cael prydau gyda'i ffrindiau - gan gynnwys picnics a barbeciws! Roedd pobl yn gwybod bod Iesu'n wahanol. Roedd o eisiau bod hefo pobl nad oedd eraill am fod yn eu cwmni - y gwael a'r llesg, pobl oedd ar ymylon cymdeithas, y gwan a'r anghenus mewn cymdeithas. Roedd Iesu'n gwybod sut oeddent yn teimlo ac roedd yn malio amdanynt. Roedd yn eu caru.

Darlleniad Awgrymedig: Luc 17:11-19

Adroddwch y stori i'r grŵp yn eich geiriau eich hun cyn darllen o'r Beibl gan ei gyflwyno megis: "Beth am ddarllen am yr un adeg pan wnaeth Iesu amser ar

gyfer y bobl hyn oedd wedi eu gwrthod gan eu cymunedau."

Waeth pa fath bynnag o bobl ydym mi a beth yw ein hanghenion ni, mae Iesu yn ein hadnabod ac yn ein caru. Mae ganddo lawer i'w gynnig i ni hefyd. Ydych chi erioed wedi meddwl am hynny? Sut allwn ni wybod sut flas sydd i'r deisen hon oni bai ein bod ni yn ei rhoi yn ein ceg a'i bwyta? Sut allwn ni wybod beth sydd gan Iesu i'w gynnig oni bai ein bod yn barod i roi cyfle iddi? Efallai nad ydych chi wedi meddwl llawer am yr hyn y mae Cristnogion yn ei gredu. Un peth y mae Cristnogion yn ei gredu yw bod Iesu yn gwybod beth sydd ei angen arnom go iawn a'i fod o'n gallu ateb yr angen hwnnw.

Neu Dystiolaeth:

Yn lle cynnal yr astudiaeth Feiblaidd uchod, efallai yr hoffech wahodd rhywun i rannu sut y daethon nhw yn Gristion. Wrth gwrs, os oes yma gyswllt 'bwyd' gorau oll! (Rhywun sy'n athrawes coginio? Yn gweithio mewn caffi? Neu rywun sydd yn adnabyddus am ei sgiliau coginio?)

Syniadau eraill ar gyfer sgysiau ar y thema bwyd:

Y Swper Olaf: Luc 22;

Iesu'n ymweld â Mair a Martha: Luc 10;

Iesu'n cael ei eneinio gan wraig bechadurus yn nhŷ Simon: Mathew 26.

2. Dilledyn Arbennig

Gwirionedd allweddol i'w rannu yn y sesiwn hon:

Roedd Adda ac Efa angen mwy na dim ond ychydig o ddillad i ddelio â'u pechod - ac mae'r un peth yn wir yn ein hanes ninnau - rydym angen help gan Iesu.

Ymlaen llaw:

Beth am sioe ffasiwn? Gall hon fod mor syml neu gymhleth ag y dymunwch! Gofynnodd un grŵp o ferched i ferched ddod â'u gwisgoedd priodas hefo nhw gydag ambell un yn gwahodd ei merched/wyresau i'w modelu!

Neu fe allwch wahodd pobl i ddod â dilledyn sydd â stori yn perthyn iddo - neu efallai lun o'r eitem. Mae hen luniau yn dangos ffasiynau cyfnewidiol yn boblogaidd iawn. Efallai y gallai rhywun drefnu cwis PowerPoint ar ddilladau o wahanol ddegawdau - gallech ffurfio timau a chyflwyno gwobr i'r tîm sy'n cael y mwyaf o atebion cywir. Efallai y byddai siop ddillad sy'n arbenigo mewn hen ddillad yn fodlon benthyg rhai eitemau yn gyfnewid am hysbysebu'r digwyddiad am ddim!

Gallwch wahodd merched yr ydych chi yn eu hadnabod neu wniadwraig leol i ddangos ei gwaith.

Trefn awgrymedig:

- Cyrraedd a sgwrsio anffurfiol wrth i bobl roi'r dillad / lluniau allan – 10 munud
- Te/Coffi a chwis – 20 munud
- Cyflwyniad - gan unigolyn neu bawb yn cyfrannu – 15 munud
- Darn o'r Beibl neu Dystiolaeth – 10 munud
- Mwy o De/Coffi a chyfle pellach i edrych ar y dillad / lluniau a sgwrsio – 25 munud

Gallwch gynnal y cyflwyniad neu'r cwis. Neu beth am hepgor y te a'r sgwrs derfynol. Byddai hyn yn sicrhau mai tuag awr fyddai hyd y digwyddiad.

Darn o'r Beibl

Mae gan bawb ohonom ddiddordeb mewn dillad - mae'n rhaid i bawb ohonom eu gwisgo wedi'r cwbl! Mae gan rai pobl well synnwyr gwisgo nag eraill ac maent wastad yn edrych yn dda; mae pobl eraill yn dilyn y ffasiwn ac yn hoffi gwisgo'r steiliau diweddaraf; mae eraill wedyn nad ydynt yn malio ffeuen am ffasiwn ac yn gwisgo beth bynnag sy'n gyffyrddus, waeth sut mae hwnnw'n edrych! Ydych chi erioed wedi meddwl sut y cychwynnodd y 'busnes dillad' hwn? Mae yn y rhan fwyaf o lyfrau hanes luniau o bobl oes yr ogofâu yn gwisgo crwyn anifeiliaid fel y dillad cyntaf!

Mae esboniad arall i'w gael yn y Beibl - mai syniad Duw oedd dillad mewn gwirionedd! Mae'r Beibl yn cychwyn gyda'r hanes am Dduw yn creu'r byd gan gynnwys Adda ac Efa, y bobl gyntaf. Mae'n disgrifio sut y creodd Duw ardd

brydferth yn llawn o fywyd gwyllt a llystyfiant, a sut yr oedd wedi gosod Adda ac Efa yno i warchod yr ardd. Ar yr adeg hon, roedd popeth yn berffaith - doedd dim chwyn yn tyfu yn yr ardd, roedd yr holl anifeiliaid yn cyd-dynnu a doedd dim salwch na marwolaeth! Ond yn bwysicach, roedd Adda ac Efa'n berffaith - roeddent yn caru ei gilydd, roeddent yn helpu'i gilydd ac roeddent yn mwynhau bod yng nghwmni ei gilydd. Roeddent yn garedig ac ystyriol, yn amyneddgar, yn fodlon ac yn addfwyn a gan eu bod yn berffaith, roedd ganddynt berthynas berffaith gyda'r Duw perffaith. Deuai Duw i'r ardd bob nos i dreulio amser gyda hwy, yn siarad a gwrando a mwynhau eu cwmni, gan ganmol eu gwaith yn yr ardd a'r modd yr oeddent yn gofalu am yr anifeiliaid.

Ond aeth rhywbeth mawr o'i le, ac fe ddewisodd Adda ac Efa droi eu cefn ar Dduw. Roedd Duw wedi plannu llawer o goed oedd yn dwyn ffrwyth yn yr ardd ac fe allai Adda ac Efa fwyta unrhyw un o'r ffrwythau, ar wahân i un goeden yng nghanol yr ardd yr oedd Duw wedi'u rhybuddio i beidio â'i chyffwrdd. Dywed y Beibl wrthym fod Satan wedi temtio Adda ac Efa i fwyta'r ffrwyth, a'u bod wedi gwrando arno ac ildio i'r demtasiwn. Unwaith yr oeddent wedi bwyta'r ffrwyth gwaharddedig, roeddent yn peidio â bod yn berffaith - roeddent bellach yn anufudd a daeth pechod i mewn i'w calonnau ac i'w bywydau.

Roedd Adda ac Efa'n gwybod yn syth eu bod wedi tramgwyddo, gan iddynt wneud dillad o ddail ar eu cyfer eu hunain gan geisio cuddio rhag Duw! Hyd at y pwynt hwn, doedd Adda ac Efa ddim angen dillad - mae'n rhaid ei bod hi'n gynnes ac yn sych yn yr ardd!

Mewn gwirionedd, mae hwn yn llun sy'n helpu inni ddeall bod eu purdeb a'u diniweidrwydd wedi diflannu a'u bod yn cywilyddio oherwydd eu bod yn gwybod eu bod wedi anufuddhau.

Bellach, doedd dim modd i'w perthynas â Duw barhau fel ag yr oedd - roedd ef yn parhau'n berffaith ond doeddent hwy ddim. Roedd rhaid iddynt adael yr ardd berffaith a chychwyn bywyd newydd. Roedd pethau ar fin newid. Roedd pechod yn golygu y byddai pethau'n anodd o hynny ymlaen - chwyn ac ysgall yn cymhlethu'r broses dyfu, anifeiliaid yn hela ei gilydd am fwyd, a phoen a dioddefaint yn hanes pobl hefyd.

Cyn i Dduw eu danfon o'r ardd, fe wnaeth ddillad o grwyn anifeiliaid ar eu cyfer. Dangosodd ei fod yn parhau i falio amdanynt drwy ddarparu'r math hwn o amddiffyn ar eu cyfer. Hyd at y pwynt hwn, doedd yr un anifail wedi marw ym myd perffaith Duw. Ond aberthodd Duw anifail er mwyn creu dillad ar gyfer Adda ac Efa. Mae'r aberth hwn yn hynod bwysig gan ei fod yn dangos bod Duw yn mynd i ddelio â phechod. Ac yn y pendraw, fe fyddai aberth arall yn cael ei wneud gan Iesu, unig Fab Duw, er mwyn gwaredu'r byd rhag pechod unwaith ac am byth.

Allwch chi ddychmygu byd perffaith? Byd heb bechod? Heb ddioddefaint na phoen, heb ryfel nac ymladd, dim trais na thlodi?

Mae'r bobl a'r byd a welwn ni o'n cwmpas yn llawn o effeithiau pechod. Mae Cristnogion yn credu y gall Iesu ddelio â'r pechod yn ein bywydau ac yn ein byd. Roedd Adda ac Efa angen mwy na dim ond ychydig o ddillad i ddelio â'u pechod - ac mae'r un peth yn wir yn ein hanes ninnau - rydym angen help Iesu.

3. Lle Arbennig

Gwirionedd allweddol i'w rannu yn y sesiwn hon:

Annog pobl i ddechrau meddwl am y lleoliad arbennig yr aeth yr Iesu iddo i baratoi ar gyfer pawb sydd yn ei garu ef.

Ymlaen llaw:

Ystyriwch beth fydd ffurf y 'Digwyddiad'.

Gallwch ofyn i bobl ddod â ffotograffau, neu gardiau post neu luniau o'u hoff fannau gyda'r enwau wedi'u cuddio. Gellid wedyn eu trefnu o gwmpas yr ystafell a gwahodd pawb i geisio dyfalu cymaint o leoliadau â phosib. Gellid gwneud hyn mewn paru neu grwpiau bychain yn hytrach nag fel unigolion. Efallai y gallwch gynnig gwobr fechan i'r enillwyr!

Gallwch wedyn wahodd pobl i ddweud rhywbeth am eu 'man' dewisedig.

Os hoffech wahodd pobl i ddweud rhywbeth am eu man dewisedig, byddai'n well rhoi gwybod iddynt ymlaen llaw - efallai nodi hynny ar y gwahoddiad. Byddwch yn benodol am yr hyn yr hoffech chi i bobl ei ddweud e.e. "A wnewch chi ddweud wrthym pam fod y man hwn yn arbennig i chi mewn dim mwy na 6 brawddeg." Gwnewch yn glir nad yw hyn yn orfodol, ac y byddech yn ddigon balch dim ond gweld y ffotograffau/lluniau.

Efallai yr hoffech ofyn i rywun roi cyflwyniad byr ynghylch trip/gwyliau i fan ecsotig neu anarferol. Wrth gwrs, bydd angen ichi esbonio faint o amser yr hoffech gymryd gyda hwn - nid dyma fydd prif ran y noson.

Trefn awgrymedig:

- Cyrraedd a sgwrsio anffurfiol gyda phobl yn gosod allan eu lluniau / cardiau post / ffotograffau – 10 munud
- Te/Coffi a chwis – 20 munud
- Cyflwyniad – gan unigolyn neu bawb yn cyfrannu – 15 munud
- Darn o'r Beibl neu Dystiolaeth – 10 munud
- Mwy o De/Coffi a chyfle pellach i edrych ar y lluniau a sgwrsio – 25 munud

Gallwch gynnal y cyflwyniad neu'r cwis. Neu gallwch hepgor y te terfynol a'r sgwrs. Byddai hyn yn sicrhau mai tuag awr fyddai hyd y digwyddiad.

Darn o'r Beibl

Cychwynnwch gyda stori bersonol fer am fan sydd yn arbennig i chi. Dywedwch pa mor braf yw clywed straeon pobl, a'u bod wedi codi awydd arnoch i ymweld â'r manau hyn eich hun!

Weithiau, pan fo pethau braidd yn anodd mae'n braf breuddwydio am ddihangfa a chael hoe o bopeth. Os oes gennych wyliau neu drip i edrych ymlaen atynt, gall y dyddiau diflas a'r dyddiau anodd ymddangos ychydig bach yn haws.

Ar fwy nag un achlysur, dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau ei fod yn mynd i rywle arbennig a'i fod ef am baratoi'r man hwnnw, fel y byddai lle yno er mwyn ymuno ag o un diwrnod. "Tŷ fy Nhad" oedd enw'r Iesu ar y man arbennig hwn.

Darllenwch Ioan 14 adnodau 1-4.

Gwyddai Iesu y byddai'n cael ei arestio a'i ladd, a dyna pam y dywed wrth ei ffrindiau am beidio ag ofni. Gwyddai Iesu nad marwolaeth fyddai'r diwedd iddo - roedd yn dychwelyd i dŷ ei Dad, hynny yw, yn ôl i'r nefoedd i fod gyda Duw ei Dad.

Dywedodd hefyd wrth ei ffrindiau y byddai'n dychwelyd atynt, i'w tywys i dŷ ei dad.

Tybed a ydych erioed wedi dyfalu be sy'n digwydd wedi inni farw? Mae Cristnogion yn credu bod man arbennig yn bodoli, sef y nefoedd, ble y mae Duw ac Iesu'n byw - dyma dŷ'r Tad y soniodd Iesu amdano.

Mae gan bobl lawer o syniadau am fywyd wedi marwolaeth ac mae llawer o'r farn nad oes bywyd wedi marwolaeth. Mae Cristnogion yn credu'r hyn a ddysgodd Iesu am fywyd wedi marwolaeth a'r nefoedd. Dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau sawl gwaith mai ei waith ar y ddaear oedd ei gwneud hi'n bosib i bobl i gael hyd i'r ffordd i'r nefoedd, i dŷ'r Tad.

Darllenwch Ioan 14 adnodau 5 a 6.

Doedd un o ffrindiau Iesu – Thomas - ddim yn deall yn iawn beth oedd gan Iesu dan sylw, felly fe ofynnodd: "Sut fyddwn ni'n gwybod y ffordd i'r lle yr wyt ti'n mynd iddo?" A dywedodd Iesu, "Myfi yw'r ffordd".

Wrth gymryd trip, bydd angen cael cyfarwyddiadau er mwyn cyrraedd y gyrchfan. Efallai bydd angen map neu Sat Nav arnom. Er mwyn cael hyd i'r ffordd i'r nefoedd, i dŷ'r Tad, mae angen i ni adnabod Iesu - nid dim ond gwybod amdano ond ei ADNABOD ef, a bod mewn perthynas gydag ef. Efallai nad ydych chi wedi meddwl am hyn o'r blaen, ond heddiw/heno, gobeithio y byddwch yn dechrau meddwl am y man arbennig y mae Iesu wedi mynd iddo er mwyn paratoi ar gyfer pawb sydd yn ei garu ef.

Neu Dystiolaeth:

Yn lle cynnal yr astudiaeth Feiblaidd uchod, efallai yr hoffech wahodd rhywun i rannu sut y daeth ef/hi yn Gristion. Wrth gwrs, os oes cyswllt hefo "man arbennig", byddai hynny'n wych!

Syniadau eraill ar gyfer thema man arbennig:

Gardd Eden: Genesis 1-3;

Y Deml yn yr Hen Destament: 2 Cronicl 1-7;

Bethlehem – man geni Iesu: Luc 2;

Cana yn Galilea – man y wyrth gyntaf: Ioan 2;

Antiochia – y man lle galwyd dilynwyr Iesu yn Gristnogion am y tro cyntaf: Actau 11:26.

4. Person Arbennig

Gwirionedd allweddol i'w rannu yn y sesiwn hon:

Mair yn ymateb i gariad a gofal Iesu - ydym ni?

Ymlaen llaw:

Wrth gwrs, dylid bod yn sensitif wrth gyflwyno'r thema hon. Efallai y bydd llawer o'ch gwesteion wedi dioddef profedigaeth a cholli gwŷr/gwragedd, plant, aelodau teulu neu ffrindiau. Ond o ystyried y ffaith hon, gallai'r sesiwn roi cyfle i bobl rannu peth o'u galar a'u llawenydd, fel bo modd dyfnhau y berthynas o fewn y grŵp. Yn yr un modd ac ymhob sesiwn, ni ddylid gorfodi unrhyw un i gyfrannu.

Efallai y carech ystyried ambell i gyfraniad ysgafnach rhag ofn bod emosiynau dyfnion ar waith. Er enghraifft, efallai y byddai rhywun am gyflwyno hen athro a wnaeth eu helpu mewn un modd neu'i gilydd, neu ffrind neu gymydog sy'n amlwg yn y gymuned, ac efallai y gallai rhywun feddwl am ffigwr hanesyddol sydd yn bwysig iawn yn eu golwg hwy.

Cofiwch ofyn i'ch gwesteion ddod â ffotograff o'u person arbennig os yn bosib.

Beth am baratoi cwis pobl enwog? Mae rhai syniadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Neu, efallai y gwyddoch chi am unigolyn sydd wedi cyfarfod person pwysig, ac fe allwch eu gwahodd i sgwrsio am hynny.

Trefn awgrymedig:

- Cyrraedd a sgwrsio anffurfiol – 10 munud
- Te/Coffi a chwis pobl enwog – 20 munud
- Cyflwyniad / Pobl yn rhannu atgofion – 15 munud
- Darn o'r Beibl neu Dystiolaeth – 10 munud
- Mwy o De/Coffi a sgwrs – 25 munud

Gallwch ddewis y cwis neu'r cyflwyniad. Neu gallwch hepgor y te terfynol a'r sgwrs. Byddai hyn yn sicrhau mai tuag awr fyddai hyd y digwyddiad.

Darn o'r Beibl

Rydym i gyd yn adnabod pobl arbennig. Pobl na fyddwn ni yn eu hanghofio. Mae pobl ym mhob cyfnod hanesyddol a gaiff eu cofio am y pethau arbennig y maent wedi eu gwneud neu eu dweud.

Unwaith, daeth Iesu ar draws gwraig ac fe ddywedodd y byddai yn cael ei chofio am byth. Dyma'i stori hi.

Ei henw oedd Mair. Roedd hi'n byw mewn tref fechan ger Jerwsalem gyda'i brawd a'i chwaer. Rywsut neu'i gilydd, daeth Iesu i mewn i'w bywydau gan aros gyda hwy yn eu cartref yn aml. Roedd Mair yn caru'r Iesu ac Iesu yn ei charu

hithau. Yn fwy na dim, hoffai Mair eistedd gydag Iesu a'r disgyblion, gan wrando arno yn siarad ac yn dysgu. Ond roedd gan Mair reswm arbennig dros garu Iesu. Roedd ei brawd, Lasarus wedi bod yn ddifrifol wael ac wedi marw cyn i Iesu gyrraedd i'w weld. Roedd Mair a Martha yn argyhoeddedig y gallai Iesu fod wedi iacháu Lasarus a'i arbed rhag marwolaeth. Roeddent yn llawn galar. Ond er syndod i bawb, galwodd Iesu Lasarus o'r bedd ac fe ymddangosodd yn y dillad y'i claddwyd ynddynt! Roedd llawer o ffrindiau a chymdogion y teulu yn credu yn Iesu'r diwrnod hwnnw.

Ychydig wedi hynny, cynhaliwyd pryd arbennig gan Simon, ffrind arall i'r teulu a gafodd ei iacháu gan Iesu, er mwyn anrhydeddu Iesu ac fe wahoddwyd Lasarus hefyd. Yn ystod y swper, daeth Mair i mewn gan gario ffiol o bersawr drud iawn - persawr yr oedd hi mwy na thebyg wedi'i brynu ar gyfer ei ddefnyddio yn ei hangladd ei hun. Torrodd y ffiol gan dywallt y cynnwys dros ben Iesu.

Roedd y disgyblion o'u co' ei bod wedi gwastraffu eitem mor ddrud. Pam na fyddai wedi meddwl gwerthu'r persawr a rhoi'r arian i'r tlodion? Ond roedd Iesu'n gwybod pam fod Mair wedi gwneud yr hyn a wnaeth. Trwy dywallt ei phersawr, roedd yn tywallt ei chariad a'i diolchgarwch i Iesu. Mae'n caru Iesu gymaint ac mor ddiolchgar am y cwbl y mae wedi'i wneud dros ei theulu fel nad oes modd iddi gadw hyn i mewn - mae'n rhaid iddi ddangos hynny. Ac wrth i'r disgyblion weld bai arni, dim ond canmol ymroddiad Mair y mae Iesu gan ddatgan y bydd gweithred Mair yn cael ei chofio am byth. Ble bynnag y byddai stori Iesu'n cael ei hadrodd, byddai gweithred gariadus arbennig Mair hefyd yn cael ei chofio!

Beth ydych chi'n feddwl o awydd Mair i ddangos i Iesu gymaint oedd ei chariad tuag ato?

Onid ydym ni yn mwynhau'r cyfleoedd a ddaw i'n rhan ninnau i ddangos cariad at y rhai sy'n ein caru? *Efallai y carech roi esiampl bersonol yma.*

Ymateb oedd gweithred Mair i gariad a gofal Iesu amdani hi a'i theulu. Ydych chi erioed wedi ystyried fod Iesu yn eich caru chi ac yn gofalu amdanoch chi hefyd? Ydych chi erioed wedi ceisio ymateb i gariad Iesu? Er ei fod wedi byw a marw 2000 o flynyddoedd yn ôl, fyth ers y cyfnod hwnnw, mae pobl o bob cwr o'r byd wedi profi cariad a gofal Iesu yn cyffwrdd eu bywydau. Roedd Iesu'n arbennig yng ngolwg Mair a Mair yn arbennig yng ngolwg Iesu. Ydi o yn rhywun arbennig yn eich bywyd chi? - rydych chi yn arbennig iddo fo. Mor arbennig nes ei fod yn barod i farw drosoch.

Neu Dystiolaeth:

Yn lle cynnal yr astudiaeth Feiblaidd uchod, efallai y carech wahodd rhywun i rannu sut y daeth ef/hi yn Gristion. Gorau oll os oes cyswllt â'r thema, er enghraifft, os oes person arbennig wedi'u helpu i ddod i ffydd.

Syniadau eraill am sgysiau ar y thema 'person arbennig':

Isaac – babi arbennig: Genesis 18,21, 22, 24;

Daniel – dyn ifanc arbennig: Daniel 1 ym;

Mair – gwraig ifanc arbennig:

Mathew 1; Mathew 27:55; Luc 1; Luc 2:51; Ioan 19:26,27.

5. Digwyddiad Arbennig

Gwirionedd allweddol i'w rannu yn y sesiwn hon:

Mae gwyrthiau Iesu yn datgelu pwy oedd o - Mab Duw.

Ymlaen llaw:

Ystyriwch sut y byddwch yn cyflwyno'r thema. Dyma rai syniadau:

- Gofynnwch i bobl ddod â rhywbeth gyda hwy sydd yn gysylltiedig â digwyddiad arbennig y maent wedi ei fynychu. Efallai yr hoffech chi ofyn i ambell un siarad yn gryno am eu 'digwyddiad'- os felly, bydd rhaid rhoi gwybod iddynt ymlaen llaw a rhoi syniad iddynt am faint y gallant siarad. Cofiwch bwysleisio na fydd rhaid i unrhyw un gymryd rhan ac efallai yr hoffent ysgrifennu esboniad byr i gyd-fynd â'r eitem sydd ganddynt .
- Gofynnwch i un person siarad am un digwyddiad y maent wedi ei fynychu. Er enghraifft, cyngerdd, digwyddiad chwaraeon, neu glywed rhywun enwog yn siarad.
- Beth am gwis 'digwyddiad enwog'? Efallai y gallai rhywun yn y grŵp greu cyflwyniad PowerPoint gyda lluniau o ddigwyddiadau enwog - neu efallai fod gennych berthynas neu ffrind allai helpu hefo hyn. Rhowch bawb mewn timau gan roi gwobr fechan i'r tîm buddugol.

Trefn awgrymedig:

- Cyrraedd a sgwrs anffurfiol wrth i bobl arddangos eu memorabilia 'digwyddiad arbennig' (syniad 1) – 10 munud
- Te/Coffi – 15 munud
- Cyflwyniad / Pobl yn trafod eu 'digwyddiad' / Cwis – 15 munud
- Darn o'r Beibl neu Dystiolaeth – 10 munud
- Mwy o De/Coffi a sgwrsio – 25 munud

Gallwch gynnal y cyflwyniad/cwis neu wrando ar gyfraniadau pobl wrth gael lluniaeth - fel hyn gallwch gael 15 munud ychwanegol.

Darn o'r Beibl

Cychwynwch trwy adrodd stori bersonol yn ymwneud â phriodas. Yna, esboniwch yn eich geiriau eich hun, y stori a geir yn Ioan 2:1-10, gwyrth gyntaf Iesu wrth iddo droi dŵr yn win mewn priodas.

Wedi gwneud hyn, darllenwch adnodau 1-11 ar goedd. Tynnwch sylw pobl at ran gyntaf adnod 11: 'Gwnaeth Iesu hyn, y cyntaf o'i arwyddion, yng Nghana Galilea.'

Gofynnwch i'r grŵp a ydynt yn credu mewn gwyrthiau. Mae llawer o bobl hefyd yn amheus o unrhyw beth sydd heb esboniad synhwyrol ac yn amharod i dderbyn unrhyw beth sydd yn 'oruwchnaturiol.'

Er hynny, mae llawer o bobl eraill yn fodlon credu mewn digwyddiadau 'goruwchnaturiol.'

Mae llawer o ddiddordeb mewn crefyddau "Oes Newydd" a chrefyddau Dwyreiniol megis Bwdiaeth y dyddiau hyn. Mae llawer un o'r "crefyddau" hyn yn dysgu fod ochr oruwchnaturiol yn rhan o bob bod dynol - yn ddwfn y tu mewn iddynt ac yn disgwyl cael ei ddatgloi trwy fyfyrddod – ochr a all gyflwyno dimensiwn arall i fywyd unigolyn.

Cafodd y stori hon am Iesu'n troi'r dŵr yn win ei chofnodi gan Ioan, un o ffrindiau agosaf Iesu. Ar ddiwedd y stori, dywed Ioan wrthym pam yn union y gwnaed y wyrth hon gan Iesu - sef er mwyn datgelu i'r disgyblion pwy oedd o mewn gwirionedd.

Gorffen darllen adnod 11, "Amlygodd felly ei ogoniant, a chredodd ei ddisgyblion ynddo."

Fe wnaeth Iesu'r hyn na allai unrhyw fod dynol cyffredin ei wneud - iacháu pobl, darllen meddyliau pobl, rheoli'r tywydd! Gwnaeth y pethau hyn er mwyn dangos fod ganddo alluoedd goruwchnaturiol - ac roedd y grym hwn ganddo gan mai Mab Duw oedd o, wedi dod o'r nefoedd i'r ddaear i gyflawni cynllun Duw.

Neu Dystiolaeth:

Yn lle cynnal yr astudiaeth Feiblaidd uchod, efallai yr hoffech wahodd rhywun i rannu sut y maent wedi dod i adnabod Iesu, Mab Duw, yn bersonol.

Syniadau eraill ar gyfer siarad ar y thema 'digwyddiadau arbennig':

Unrhyw un o wyrthiau iacháu Iesu; yr Atgyfodiad; Yr Esgyniad.

6. Cân Arbennig

Gwirionedd allweddol i'w rannu yn y sesiwn hon:

Sut mae Duw yn caru ei bobl.

Ymlaen llaw:

Ystyriwch sut y byddwch yn cyflwyno'r thema. Dyma rai syniadau:

- Gwahodd pobl i ddod â recordiad o'u hoff gân i'w chwarae. Bydd angen amrywiaeth o offer ar gyfer hyn, gan gynnwys chwaraewr CD, chwaraewr tapiau, neu hyd yn oed chwaraewr LP!
- Gwahodd pobl i ganu eu hoff gân - neu ran ohoni!
- Gwahodd pobl i ddod â chopïau o'r geiriau (a'r gerddoriaeth) i'w harddangos?
- Gwahodd canwr/perfformiwr lleol i ddod draw i rannu eu hoff gân - ond cofiwch am y cyfyngiadau amser.

Trefn awgrymedig:

- Cyrraedd a sgwrsio anffurfiol wrth i bobl arddangos memorabilia eu 'hoff gân' (syniad 1) – 10 munud
- Te/Coffi – 15 munud
- Cyflwyniad / Pobl yn siarad am y gân / Amser canu! – 15 munud
- Darn o'r Beibl neu Dystiolaeth – 10 munud
- Mwy o De/Coffi a sgwrs – 25 munud

Gallwch gynnal y cyflwyniad / neu wrando ar gyfraniadau pobl yr un pryd â chael lluniaeth - fel hyn byddai 15 munud ychwanegol ar gael.

Darn o'r Beibl

Efallai yr hoffech chwarae rhan o'r emyn 'Yr Arglwydd yw fy mugail da' (rhif 62 yn *Caneuon Ffydd*) neu drefnu i rywun ei ganu yn ystod y sgwrs. Byddai'n syniad hefyd i ddarparu copïau o Salm 23 – yn y Beibl, ar daflenni neu ar PowerPoint.

Yn gryno, rhannwch atgof personol am yr emyn sydd yn arbennig i chi.

Gofynnwch i'r grŵp a ydynt yn gwybod am unrhyw un sydd yn cyfansoddi barddoniaeth neu ganeuon. Cyflwynwch Ddafydd i sylw'r grŵp – dyn ifanc y clywsom amdano yn yr Hen Destament – hynny yw, roedd yn byw cyn dyddiau Iesu Grist ond roedd yn un o'i gyndeidiau. Pan ddarllenwn am Ddafydd am y tro cyntaf, roedd yn fugail yn edrych ar ôl defaid ei dad. Ond roedd gan Dduw gynlluniau mawr ar gyfer Dafydd, yn wir daeth yn frenin Israel, ac fe'i hystyrir gan Iddewon fel y brenin pwysicaf erioed yn hanes eu cenedl.

Roedd Dafydd yn gyfansoddwr caneuon – ac mae llawer o'r caneuon wedi'u cofnodi yn y Beibl yn Llyfr y Salmau.

Oes unrhyw un yn gwybod am yr emyn 'Yr Arglwydd yw fy Mugail da'? Mae'n seiliedig ar Salm 23, salm adnabyddus sy'n cael ei darllen yn aml mewn priodasau ac angladdau. *Efallai y carech wrando ar ran o'r emyn yn y fan hyn.*

Y bugail Dafydd, oedd yn byw tua 3000 o flynyddoedd yn ôl, ysgrifennodd y geiriau i'r gân hon yr ydym yn dal yn ei chanu heddiw!

Beth yw union apêl y gân hon sydd wedi caniatáu iddi oroesi ar hyd y canrifoedd? Beth am edrych arni gyda'n gilydd i weld beth sy'n ei gwneud hi mor arbennig. *Darllen y Salm.*

Tybed beth wnaeth eich taro chi wrth ddarllen y Salm?
Rhowch amser i bobl gyfrannu.

Crynowch y Salm yn eich geiriau eich hun, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Mae Dafydd yn darlunio Duw fel bugail. Beth a awgryma hynny am natur Duw? *Gofalus, yn darparu, yn amddiffyn, yn arwain.*
- Darlunia Dafydd Dduw yn ei arwain trwy fannau braf a phleserus a manau tywyll a drygionus.
- Darlunia Dduw yn paratoi gwledd ar ei gyfer.
- Mae'n sicr y bydd Duw yn dda tuag ato ac yn ei garu am byth, ac y bydd un diwrnod yn byw gyda Duw.

Er bod Dafydd yn byw amser maith yn ôl, mae'n disgrifio beth y mae llawer o Gristnogion mewn gwahanol gyfnodau ac mewn gwahanol wledydd wedi ei brofi.

Mae Duw am fod yn fugail i ni - gan ofalu, darparu, amddiffyn ac arwain. Mae Duw eisiau ein harwain trwy'r amseroedd da a'r amseroedd drwg, mae o am fod yno gyda ni trwy'r cwbl. Mae o am inni brofi ei gariad. Ac mae o am inni brofi ei gariad am byth. Un peth sy'n rhoi gobaith i Gristnogion pan fo pethau'n anodd yw bod Duw gyda ni drwy'r adeg - trwy'r cwbl i gyd. Elfen arall sy'n cynnig gobaith a chryfder i ddal ati yw bod rhywbeth gwell i edrych ymlaen ato wedi'r bywyd hwn - sef bywyd gyda Duw yn y nefoedd.

Tybed ydych chi erioed wedi meddwl am Dduw fel Dafydd - fel bugail sy'n caru ei braidd ac eisiau'r gorau iddynt? Allwch chi ddweud, megis Dafydd, o waelod eich calon: "Yr Arglwydd yw fy Mugail"?

Neu Dystiolaeth:

Yn lle'r astudiaeth Feiblaidd uchod, efallai yr hoffech wahodd rhywun i rannu sut y maent wedi profi Duw fel eu bugail.

Syniadau eraill am sgysiau ar thema'r 'gân arbennig':

Roedd llawer o gymeriadau'r Beibl yn canu caneuon, er enghraifft, Cân Miriam Exodus 15 a Chân Mair, Luc 1. Salm arall o'ch dewis.

Emynau/caneuon yn seiliedig ar adnodau o'r Beibl, er enghraifft, Meseia Handel neu Eleias Mendelssohn.

Straeon am lunwyr emynau.

Corws yr Haleliwia o Ddatguddiad 19!

7. Llyfr Arbennig

Gwirionedd allweddol i'w rannu yn y sesiwn hon:

Bod Cristnogion yn trysori'r Beibl gan mai neges Duw i'r byd sydd ynddo.

Ymlaen llaw:

1. Arddangosfa o Feiblau gyda ffeithiau. Byddai'n dda dangos cymaint o Feiblau â phosib: rhai hen iawn, Beiblau 'teuluol'; Beiblau mewn ieithoedd gwahanol; Beiblau Plant. Mae'n bosib y gallwch fenthyg rhai o'r rhain o'r llyfrgell neu ofyn iddynt gael hyd i rai o'r copïau mwy 'anarferol' ar eich cyfer.
2. Gwahodd pobl i ddod â hoff lyfr i'w arddangos - Cristnogol neu fel arall - a pharatoi crynodeb byr ohono i'w osod wrth ochr y llyfr.
3. Gwahodd cynrychiolydd o Gymdeithas y Beibl i roi sgwrs ar waith y Gymdeithas heddiw.
4. Darparu planhigyn bychan, pecyn o hadau neu hedyn blodyn haul i bawb ar ddiwedd y sesiwn i'w atgoffa o'r sesiwn.

Trefn awgrymedig:

- Cyrraedd a sgwrsio anffurfiol wrth i bobl arddangos eu llyfrau / edrych ar y Beiblau sydd wedi eu gosod allan – 10 munud
- Te/Coffi – 15 munud
- Darn o'r Beibl neu Dystiolaeth – 25 munud
- Mwy o De/Coffi a chyfle eto i edrych ar y Beiblau a'r llyfrau – 20 munud

Darn o'r Beibl

Byddwch angen yr eitemau a ganlyn i'w harddangos fel cymhorthion gweledol yn ystod y sgwrs: Lamp (lamp olew hen ffasiwn os yw hynny'n bosib); pecyn o hadau a chleddyf (neu lun o gleddyf!)

Gofynnwch y cwestiynau canlynol: Pa lyfr sydd wedi'i gyhoeddi amlaf yn hanes y byd? Pa lyfr sydd yn gwerthu'r mwyaf o gopïau bob blwyddyn? Pa lyfr sydd wedi'i gyfieithu fwyaf? *Yr ateb i bob un o'r cwestiynau hyn yw'r 'Beibl.'*

Mae pobl wedi bod yn darllen y Beibl ym mhob cwr o'r byd dros y 2000 o flynyddoedd diwethaf. Pam ei fod wedi para cyhyd? Beth sydd mor arbennig amdano?

Byddai'n dda pe bai modd ichi rannu stori bersonol fan hyn am adeg pan fu'r Beibl o gymorth i chi, yn dysgu gwers bwysig i chi neu'n cynnig arweiniad neu gywiriad.

Dangoswch y lamp. Mewn dyddiau a fu, byddai pobl wedi defnyddio lampau i oleuo eu cartrefi neu os oedd rhaid iddynt wneud taith yn y tywyllwch. Mae'r Beibl megis lamp i ni - mae'n rhoi goleuni i ni, mae'n ein helpu i weld gwirioneddau ysbrydol ac mae'n ein harwain. Meddylwch pa mor anodd yw cael hyd i rywbeth os ydym yn chwilio yn y tywyllwch! Rydym angen y Beibl os ydym am 'ddarganfod Duw': i wybod sut un ydi o, i wybod beth y mae wedi'i wneud - heb oleuni'r Beibl does dim modd inni adnabod Duw. Mae ceisio gwybod mwy am Dduw heb y Beibl

megis chwilio am rywbeth yn y tywyllwch. Mae'r Beibl hefyd yn arwain yn yr ystyr ei fod yn dangos beth sy'n gywir ac yn anghywir yng ngolwg Duw, beth sy'n ei fodloni. Felly, os ydym yn bobl sydd am fodloni Duw, mae'r Beibl yn dangos sut mae gwneud hyn ac mae'n rhoi 'goleuni' i ni ar sut y mae mynd o'i chwmpas hi.

Dangoswch yr hadau. Rydym oll yn gwybod beth a ddigwydd i'r hadau hyn os cânt eu plannu ac os gofalir amdanynt - byddant yn tyfu yn blanhigion cryf a gwydn. Dywedodd Iesu ei hun bod ei eiriau ef fel hadau, ac os plennir y rhain yn ein calonnau, byddant yn tyfu a dwyn ffrwyth. Mae geiriau Iesu i'w cael yn y Beibl, yn y Testament Newydd. Wrth wrando neu ddarllen geiriau Iesu a'u gosod hwy ar ein calonnau, bydd ein bywydau yn dechrau newid - mae'n debyg i'r planhigyn sydd yn gorfod newid ei natur wrth dyfu. Mae dail newydd yn tyfu ac yn aml daw blodau neu ffrwythau yn eu tymor. Gall geiriau Iesu hefyd newid ein bywydau a bydd pethau newydd yn tyfu - cymeriad newydd, dyheadau newydd, arferion newydd.

Dangoswch y cleddyf. Disgrifir y Beibl fel lamp ac fel hedyn, ond hefyd fel cleddyf - cleddyf daufiniog sy'n llym a grymus.

Eto, mewn blynyddoedd a fu, defnyddid y cleddyf i ymosod ac amddiffyn mewn ymladdfa neu frwydr.

Mae Cristnogion yn gweld bywyd fel 'brwydr' a'r Beibl fel erfyn hanfodol yn y frwydr honno. Yn aml iawn, teimlwn fod brwydr yn digwydd rhwng y 'da' a'r 'drwg' yn ein bywydau. Fe'n temtir i wneud pethau neu i ddweud pethau neu ymddwyn mewn modd y gwyddom nad yw'n plesio Duw. Ond sut allwn ymwrthod â'r demtasiwn honno ac amddiffyn ein hunain? Rydym yn codi'r 'cleddyf' ac yn ymladd yn ôl. Wrth ddarllen y Beibl, mae gennym y grym i ymladd yn ôl a dweud 'Na' wrth demtasiwn.

Ambell dro fe deimlwn ein bod dan 'ymosodiad': efallai bod rhywun yn y gwaith neu yn y gymuned yn ein herbyn ac yn gwneud pethau'n anodd i ni; efallai bod rhywbeth annymunol yn digwydd i ni neu i'n teulu. Gallwn gydio yn y 'cleddyf' a chael ynddo atebion i wrthwynebu ein hamheumon, ein gofidiau, neu ein problemau. Bydd geiriau Duw yn y Beibl yn ein cysuro, yn ein gwneud yn gryf ac yn ein hamddiffyn.

Mae llyfrau'n dylanwadu ar fywydau pawb ohonom. Gall llawer dystio bod llyfr arbennig wedi siapio eu cydolwg, eu dewis o yrfa, hyd yn oed y modd y maent yn bwyta! Mae'r Beibl wedi dylanwadu ar fwy o fywydau nag unrhyw lyfr arall yn hanes y ddynoliaeth.

Faint o Feiblau sydd gennych chi yn eich cartref? Dim ond un sydd ei angen mewn gwirionedd! Ond er mwyn i'r un Beibl ddylanwadu arnom, mae angen inni ei agor a'i ddarllen, fel bo'r goleuni yn tywynnu i mewn i'n bywydau, fel bo'r hadau yn dod allan o'r 'pecyn', a ninnau wedyn yn profi grym y 'cleddyf.'

Os ydych chi wedi penderfynu cyflwyno hadau i sylw'r grŵp esboniwrch pam, gan annog y grŵp i gofio wrth iddynt weld yr hadau yn tyfu pa mor arbennig yw'r Beibl, a sut y gall newid eu bywydau hefyd.

Neu, gyflwyniad am Gymdeithas y Beibl

Syniadau eraill am sgysiau ar thema'r llyfr arbennig:

Eseia yn darganfod llyfr y Gyfraith: 2 Brenhinoedd 22; 2 Cronicl 34;
Llyfr y Bywyd yn Datguddiad 20;
Hoff lyfr o'r Beibl.

8. Llun Arbennig - Nadolig

Gwirionedd allweddol i'w rannu yn y sesiwn hon:

Bod gwir ystyr y Nadolig yn aml yn mynd yn angof yng nghanol traddodiad a masnacheiddio. Mae Cristnogion yn dathlu genedigaeth Mab Duw.

Ymlaen llaw:

Seilir y sesiwn hon ar gardiau Nadolig. Os gwyddoch am rywun sy'n dda am wneud cardiau, beth am estyn gwahoddiad iddynt ddod draw i arddangos sut y maent yn gwneud eu cardiau eu hunain. Efallai y carech gopïo rhai o'u syniadau hwy neu wahodd eich gwesteion i roi cynnig arni gyda'u syniadau eu hunain. Wrth gwrs, bydd angen darparu'r offer angenrheidiol ond mae gwneud cardiau yn weithgaredd hwyliog ac yn ffordd dda iawn o gael pobl i sgwrsio â'i gilydd. Bydd angen gwneud y sesiwn hon ychydig yn hwy - mi aiff awr heibio'n hawdd iawn os oes gwaith crefft ynghlwm wrtho!

Trefn awgrymedig:

- Cyrraedd a sgwrsio anffurfiol gan weini te a choffi – 15 munud
- Cyflwyniad / Gwneud cardiau – 45 munud
- Darn o'r Beibl neu Dystiolaeth – 10 munud
- Amser i edrych ar waith llaw'r naill a'r llall - dyfarnwch wobrwon!
– 10 munud

Darn o'r Beibl

Bydd y siaradwr wedi dewis golygfa o Stori'r Nadolig gan esbonio pam fod y llun yn arbennig yn eu golwg. Gallent gychwyn trwy arddangos amrywiaeth o gardiau Nadolig, rhai gyda lluniau o'r Nadolig, rhai golygfeydd gaeafol, a rhai yn arddangos traddodiadau'r Nadolig (Siôn Corn, coed Nadolig ac addurniadau). Mae'r cardiau hyn yn cynrychioli'r hyn y mae Nadolig yn ei olygu i bobl heddiw.

Gall y siaradwr wedyn ddangos eu cerdyn dewisedig a'i ddefnyddio i ail-adrodd hanes geni Iesu yn y Beibl. Byddai'n syniad da i ddarllen yr adnodau perthnasol o'r Beibl a darparu copïau i bawb i'w dilyn, mewn Beiblau, ar daflenni neu drwy ddefnyddio taflunydd.

Rhai syniadau:

Mair a'r angel Gabriel: Mae Mair yn ymddiried yn Nuw, yn clywed enw'r Baban a'i darddiad dwyfol.

Mae Mair a Joseff yn teithio i Fethlehem: Maent yn rhan o gyflawni cynllun Duw mewn hanes trwy ddanfôn Gwardwr trwy linach Dafydd.

Y bugeiliaid yn y meysydd / gyda'r angylion: Cyhoeddi genedigaeth y Gwardwr i fugeiliaid di-nod! Presenoldeb angylion y nefoedd.

Y baban Iesu yn y preseb: Iesu Mab Duw yn cael ei eni mewn stabal. Dynoliaeth a dwyfoldeb Iesu. Proffwydoliaeth yn cael ei gwireddu.

Y Gwŷr Doeth yn teithio i Fethlehem: Gwireddu proffwydoliaeth. Arwyddocâd eu hymweliad a'u hanrhegion.

Neu Dystiolaeth:

Yn lle'r astudiaeth Feiblaidd uchod, efallai yr hoffech wahodd rhywun i rannu sut y mae ystyr y Nadolig wedi newid wedi iddo ef/hi ddod yn Gristion.

Syniadau eraill am sgysiau ar y thema llun arbennig:

Gwahodd artist Cristnogol i ddod draw i drafod eu gwaith.

Gwahodd rhywun i drafod llun crefyddol enwog, er enghraifft, 'Light of the World', William Holman Hunt.

9. Gwrthrych Arbennig

Gwirionedd allweddol i'w rannu yn y sesiwn hon:

Bara a gwin - dau wrthrych cyffredin - sydd yn atgoffa Cristnogion am farwolaeth anghyffredin Iesu.

Ymlaen llaw:

Meddyliwch sut i gyflwyno'r thema. Dyma rai syniadau:

- Gofynnwch i bobl ddod â gwrthrych hefo nhw. Efallai yr hoffech iddynt ysgrifennu cyflwyniad byr i gyd-fynd â'u gwrthrych. Efallai yr hoffech i rai pobl siarad am wrthrych yn gryno - os felly, rhaid rhoi gwybod iddynt ymlaen llaw a nodi am faint o amser y gallant siarad.
- Gofynnwch i rywun sydd â chasgliad neu ddiddordeb arbennig sy'n ymwneud â 'gwrthrych arbennig' i ddod ag eitemau i ddangos i'r grŵp, a siarad amdanynt.
- Casglwch amrywiaeth o wrthrychau anarferol/od/anghyfarwydd a chynnal cwis. Rhwch bawb mewn timau a rhoi gwobr i'r tîm sy'n ennill. Gwnewch yn siŵr y gall rhywun gynnig atebion gydag esboniadau os oes angen!

Trefn awgrymedig:

- Cyrraedd a sgwrsio anffurfiol wrth i bobl arddangos eu gwrthrychau (syniad 1) – 10 munud
- Te/Coffi – 15 munud
- Cyflwyniad / Pobl i siarad am eu gwrthrychau / Cwis – 15 munud
- Darn o'r Beibl neu Dystiolaeth – 10 munud
- Mwy o De/Coffi a sgwrs – 25 munud

Wrth hepgor y te a'r sgwrs derfynol, byddwch yn sicrhau mai tuag awr fydd hyd y digwyddiad.

Darn o'r Beibl

Byddwch angen torth o fara neu rôl a gwydr o win/sudd grawnwin du. Cadwch y rhain o'r golwg tan y foment briodol.

Gobeithio y bydd un o'r eitemau yn ymwneud â bwyd neu goginio. Gwnewch sylw priodol. Yna esboniwch i'r grŵp bod dau wrthrych pwysig mewn capel/eglwys, sydd fel arfer i'w gweld yn y gegin. All unrhyw un ddyfalu beth ydi'r rhain?

Dangoswch y bara a'r 'gwin'. Mae gwrthrychau eraill yn yr Eglwys/Capel sy'n bwysig - all pobl enwi'r rhain a chynnig esboniad am eu pwysigrwydd?

Ond mae'r bara a'r 'gwin' yn eithriadol o bwysig gan i Iesu ei hun ddweud y dylai ei ddilynwyr eu defnyddio mewn modd arbennig iawn. Efallai eich bod wedi bod mewn gwasanaeth mewn Eglwys neu Capel ac wedi cymryd rhan mewn

gwasanaeth Cymun. Wyddoch chi fod y broses hon wedi'i dechrau gan Iesu ei hun?

Esboniwch fod Iesu a'i ffrindiau, y disgyblion, wedi mynd i Jerwsalem er mwyn dathlu'r ŵyl Iddewig bwysicaf, sef y Pasg. Bob blwyddyn, mae Iddewon yn dathlu'r Pasg er mwyn cofio sut yr arweiniodd Moses eu hynafiaid o'r Aifft ac o gaethwasanaeth yno - oes rhywun yn cofio stori Moses yn croesi'r Môr Coch?

Rhan hanfodol o'r ŵyl hon oedd pryd y Pasg - pryd oedd yn llawn symbolaeth a phryd y byddai teuluoedd yn ei fwyta gyda'i gilydd.

Wedi i Iesu a'i ffrindiau fwyta pryd y Pasg, dyma'r hyn a ddigwyddodd.

Darlleniad: 1 Corinthiaid 11: 23-26.

Codwch y bara gan adrodd geiriau'r Iesu, "Hwn yw fy nghorff, sydd er eich mwyn chi". Yna codwch y gwin a dywedwch "Meddai Iesu, 'Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed'." Dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau am fwyta'r bara ac yfed y gwin i gofio amdano - sut fyddai'r ddau wrthrych hyn yn eu hatgoffa o Iesu?

Wel, dywedodd Iesu y byddai torri'r bara yn eu hatgoffa bod ei gorff ef wedi'i dorri wrth iddo gael ei groeshoelio. Byddai'r gwin yn eu hatgoffa o'i waed a gollwyd wrth iddo waedu ar y groes.

Dywed Iesu wrth ei ffrindiau hefyd bod y bara a'r gwin yn symbolau o gyfamod newydd. Gair arall am gytundeb yw cyfamod. Pan fu farw Iesu, roedd yn gwneud cytundeb â Duw ei Dad ar ein rhan. Fel arfer, mae cytundeb yn cynnwys dau barti sydd yn gwneud addewidion i'w gilydd. Meddylwch am gytundeb morgais - mae'r benthyciwr yn addo rhoi arian i rywun sydd yn ei dro yn addo talu'r arian yn ôl o dan amodau arbennig. Yn syml iawn, addawodd Iesu y byddai'n cymryd ei gosbi am ein pechod a'n camweddau ni, ac fe addawodd Duw faddau i bawb sy'n credu bod Iesu wedi marw drostynt. Dyma'r cyfamod newydd y mae'r bara a'r gwin yn ein hatgoffa ohono, hyd yn oed heddiw, mewn eglwysi a chapeli ar hyd a lled y byd.

A oes rhywun wedi esbonio hyn i chi o'r blaen? Ydach chi'n gwybod o beth y mae'r gwrthrychau hyn yn atgoffa Cristnogion? *Efallai y gallwch rannu esboniad personol o beth y mae cymryd y bara a'r gwin yn ei olygu i chi.*

Mae'r ddau wrthrych syml hyn yn symbolau grymus o gorff a gwaed Iesu, ac maent yn ein hatgoffa gymaint y mae Duw yn ein caru ni - ei fod yn fodlon i'w unig Fab farw i wneud cyfamod newydd yn bosib.

Neu Dystiolaeth:

Yn lle'r astudiaeth Feiblaidd uchod, efallai y gallwch wahodd rhywun i rannu'r hyn y mae'r Cymun yn ei olygu iddynt hwy.

Syniadau eraill am sgysiau ar thema 'gwrthrychau arbennig':

Gwrthrychau'n ymwneud â Stori'r Pasg

(clogyn a dis, hoelion, finegr, coron ddrain ayyb);

Arch y Cyfamod: Exodus 25, 26, 31, 37;

Gwrthrychau o ddamhegion e.e. defaid, arian, hadau, perlau;

Gwrthrychau o Stori'r Nadolig (seren, anrhegion, defaid, preseb, asyn).

10. Blodyn/Planhigyn Arbennig

Gwirionedd allweddol i'w rannu yn y sesiwn hon:

Y peth pwysicaf mewn bywyd yw ceisio adnabod Duw fel brenin.

Ymlaen llaw:

Ystyriwch sut i gyflwyno'r sesiwn hon. Dyma rai syniadau:

- Gofynnwch i rywun ddod draw i wneud ychydig o drefnu blodau.
- Cynnal 'cyfnod holi'r garddwyr' – byddwch angen 'arbenigwr' neu ddau a rhai cwestiynau.
- Gofynnwch i bobl i ddod â phlanhigyn/blodyn hefo hwy. Gallwch ofyn i bobl un ai i siarad am eu planhigyn/blodyn neu ofyn iddynt ysgrifennu ambell frawddeg i esbonio eu dewis.

Trefn awgrymedig:

- Cyrraedd a sgwrsio anffurfiol wrth i bobl arddangos eu blodau/planhigion – 10 munud
- Te/Coffi – 15 munud
- Cyflwyniad trefnu blodau / Pobl i siarad am eu planhigion neu eu blodau – 15 munud
- Darn o'r Beibl neu Dystiolaeth – 10 munud
- Mwy o De/Coffi a sgwrs – 15 munud

Gallwch gynnal y cyflwyniad trefnu blodau neu wrando ar gyfraniadau pobl gyda'r lluniaeth - fel hyn byddai 15 munud ychwanegol ar gael.

Darn o'r Beibl

Byddwch angen ffiol o lili – Lili'r Forwyn os yn bosib.

Gofynnwch i'r grŵp a ydynt yn gwybod am unrhyw flodau neu goed a gaiff eu henwi yn y Beibl. Dyma rai: ffigys, cedrwydd, sycamorwydd, myrtwydd, pinwydd, olewydd, pren almon, lili, rhosyn, saffrwm.

Tynnwch sylw'r grŵp at y ffiol o lili ac esbonio bod Iesu wedi defnyddio lili fel eglureb wrth ddysgu ei ffrindiau ar un achlysur. Pwyntiodd at y lili gan ddweud pa mor brydferth yr oeddent - yn fwy ysblennydd na Solomon hyd yn oed, brenin enwog yn yr Hen Destament.

Roedd Iesu'n dysgu ei ffrindiau sut y dylent fyw fel ei ddilynwyr. Un o'r gwersi pwysicaf yr oedd am iddynt ei dysgu oedd na ddylent boeni am un dim - yn enwedig eu dillad a'u bwyd. Gofynnwch i'r grŵp faint o amser y maent yn ei dreulio yn poeni am fwyd a dillad! Trafodwch yn gryno'r materion eraill sydd yn ein poeni ar wahân i fwyd a dillad - gwaith, arian, teulu, materion ieuchyd.

Darllenwch Mathew 6:25-33

Roedd Iesu am i'w ffrindiau sylweddoli os byddent yn ei ddilyn ef y byddai Duw yn gofalu am eu hanghenion dyddiol. Mae hyn yn gymaint o fendith, bendith y mae Cristnogion trwy'r oesoedd wedi ei phrofi - bod Duw yn gallu ac yn darparu ar ein cyfer.

Ond â Iesu ymlaen i ddweud wrth ei ffrindiau am yr un peth y dylent ymboeni amdano yn fwy nag unrhyw beth arall mewn bywyd.

Darllenwch Mathew 6:33. "Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef, rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi."

Beth yw ystyr "ceisio teyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef"?

Ble mae teyrnas Dduw? Ble mae Duw'r Brenin? Wel, dywed y Beibl mai Duw yw brenin yr holl fyd ond bod arno eisiau bod yn frenin ein bywydau. Daw'n frenin ein bywydau wrth inni sylweddoli ein bod wedi ymwrthod â Duw a bod rhaid inni ei wahodd i mewn i'n bywydau fel ein Brenin. Mae hynny'n swnio'n eithaf hawdd, ond dywed Iesu hefyd bod angen inni chwilio am 'Gyfiawnder Duw.' Allwn ni ddim derbyn Duw fel Brenin fel ag yr ydym ni. Mae ein bywydau yn llawn camweddau - meddyliau anghywir, geiriau anghywir, teimladau a dyheadau anghywir. Ac mae Duw yn gyfiawn - yn berffaith ym mhob ffordd ac yn analluog o gael perthynas ag unrhyw un sydd yn llai na pherffaith. Yr hyn sy'n anhygoel yw bod Iesu Grist wedi marw ar y groes er mwyn delio â'n camweddau ni, ein pechod. Gall ein gwared rhag pechod, gall faddau i ni ac fe all ein gwneud yn dderbyniol i Dduw, ei Dad - gall ein gwneud yn gyfiawn.

Felly, mae Iesu'n dweud wrth ei ffrindiau mai'r peth pwysicaf sydd angen sylw yn eu bywydau yw eu perthynas â Duw. Uwchlaw popeth arall, mae angen iddynt sicrhau eu bod yn gyfiawn a bod Duw yn frenin eu bywydau.

Beth sy'n bwysig yn eich bywyd ar hyn o bryd? *Caniatewch i rai atebion gael eu cynnig. Cydnabyddwch fod y pethau sydd wedi eu henwi yn bwysig iawn.* Tybed a yw ceisio teyrnas Dduw a'i gyfiawnder hefyd yn bwysig? Mae Duw am inni brofi ei holl fendithion, ond yn gyntaf mae'n rhaid inni ei dderbyn fel ein brenin, ac rydym angen Iesu i ddelio â'n pechod cyn y gall hyn ddigwydd.

Neu Dystiolaeth:

Yn hytrach na'r astudiaeth Feiblaidd uchod, efallai yr hoffech wahodd rhywun i rannu sut y gwnaethant dderbyn Duw fel eu brenin.

Syniadau eraill am sgysiau ar thema'r 'blodyn/planhigyn arbennig':

Gardd Eden: Genesis 1-3;
Iesu'r Winwydden: Ioan 15.

Atodiad

Syniadau ar gyfer cwis enwogion

1. *Pwy ddywedodd?*
Bydd angen casglu nifer o ddywediadau gan bobl enwog.
2. *Pwy wnaeth?*
Bydd angen casglu gwybodaeth neu luniau o ddigwyddiadau hanesyddol neu ddyfeisiadau enwog.
3. *Cartref pwy?*
Bydd angen casglu lluniau neu wybodaeth am gartrefi enwogion.
4. *Lluniau o wynebau enwogion wedi'u rhannu a'u cymysgu.*

Ffeithiau am Y Beibl

- *Ffeithiau am Y Beibl*
- *Y gair olaf yn Y Beibl yw AMEN.*
- *Caiff tua 50 o Feiblau eu gwerthu bob munud.*
- *Cafodd Y Beibl ei ysgrifennu mewn tair iaith: Hebraeg, Aramaeg, a Groeg Cyffredin y Dydd (Koine Greek).*
- *Y Beibl, y llyfr a gaiff ei werthu fwyaf, yw'r un a gaiff ei ddwyn fwyaf o siopau.*
- *Y llawysgrif bron-yn-gyflawn hynaf o'r Beibl sydd yn dal ar gael yw'r Codex Vaticanus sy'n dyddio o hanner cyntaf y 4edd ganrif, ac sydd yn awr yn Llyfrgell y Fatican.*
- *Dair gwaith yn unig y mae'r gair 'Cristion' yn ymddangos yn Y Beibl: Actau 11:26; 26:28; 1 Pedr 4:16.*
- *Llyfr Esther yw'r unig lyfr yn Y Beibl heb y gair 'Duw' ynddo.*
- *Mae 66 o lyfrau yn Y Beibl, 39 yn yr Hen Destament a 27 yn y Testament Newydd.*
- *Mae 594 o benodau o flaen Salm 118 a 594 ar ei hôl.*
- *Salm 118 adnod 8 yw canol Y Beibl: 'Gwell yw llochesu yn yr ARGLWYDD nag ymddiried yn neb meidrol'.*